

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talylychau yn Ysgol Gynradd Gymunedol Talylychau, nos Fawrth 7 Rhagfyr 2021, am 7.30 p.m. Roedd y canlynol yn bresennol: Marged Bowen (Cadeirydd), Janine Roberts, John Williams, Aled Williams, y Cynghorydd Sir Joseph Davies a Jane Morgan (Clerc).

Ymddiheuriadau: Pauline George, Rhys Williams, Steve Haines, Eifion Roberts.

Ni nodwyd unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

Cadarnhawyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

Materion yn codi.

Y cofnodion.

Cytunwyd y byddai'r Clerc yn cofnodi unrhyw benderfyniadau pwysig yn ymwneud â'r Cae Cymunedol a'r Fynwent, a hynny yn ôl trefn dyddiad. Byddai rhestr yn cael ei chadw yng nghefn y Llyfr Cofnodion er mwyn ei gwneud yn haws dod o hyd i'r wybodaeth.

Diffibrilwyr.

Grant gan y Llywodraeth. Byddai'r Clerc yn gwneud ymholiadau pellach ac yn dechrau'r broses o wneud cais am grant ar gyfer diffibrilwyr ychwanegol yn y gymuned. Ni ddylai fod yna ddiffibriliwr o fewn 500 m i'r safle arfaethedig ar hyn o bryd. Byddai'r cleric yn gwirio'r angen am drydan ar y safle gan fod y rhai cyfredol yn rhedeg ar fatris yn unig. Trafodwyd safleoedd addas. Cytunwyd i anfon llythyr at Eglwys Apostolaidd Ebeneser, Halfway, i weld a fyddai gan yr aelodau ddiddordeb. Cytunwyd hefyd i anfon llythyr at Gymdeithas Cwm-du i weld a hoffent gael diffibriliwr ychwanegol yn y pentref.

Ymholiad/Awgrym ar gyfer Cyngor Cymuned Talylychau a ddaeth i law trwy wefan [www.talley.org.uk](http://www.talley.org.uk).

Gan fod thema diffibrilwyr wedi cael ei chodi yn y ddau gyfarfod Cyngor diwethaf, awgrymwyd gwneud cais am ddiffibriliwr wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, os oedd angen un. Ni fyddai angen cymryd camau pellach gan fod y Cyngor Cymuned yn ymchwilio i'r posibilrwydd hwn. Byddai'r Clerc yn cysylltu â Chlerc Cyngor Cymuned Maenordeilo a Salem i ddod o hyd i fanylion cyswllt cwmni sy'n darparu'r un cyfleusterau ag yr oedd cwmni Cariad yn eu darparu.

Y Cae Cymunedol. Ar ôl y tywydd stormus a gafwyd ddydd Gwener 26 Tachwedd, roedd y Pagoda ar y Cae Cymunedol wedi dymchwel. Roedd y Clerc wedi rhoi gwybod i'r Cynghorwyr ac wedi dosbarthu lluniau trwy e-bost. Roedd cwmni Yswiriant Zurich hefyd wedi cael gwybod. Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd y byddai'r Clerc yn cysylltu i wneud hawliad, gan fod yr eiddo wedi'i yswirio.

Cynlluniau ar gyfer Mynwent yr Eglwys.

Rhoddyd diweddariad gan Janine Roberts. Roedd Marged Bowen a Janine Roberts wedi dechrau ar y broses o roi trefn ar y cynlluniau ar gyfer Mynwent yr Eglwys.

Cais am fainc ym Mynwent Eglwys Sant Mihangel.

Yn dilyn trafodaeth cytunodd y Cynghorwyr y byddai'r Clerc yn ateb gan ddweud bod yn rhaid iddynt wrthod y cais yn anffodus, a hynny oherwydd y nifer o geisiadau tebyg a ddaeth i law. (Gweler y nodyn yng nghofnodion mis Mawrth 2016)

Roedd posteri ar gyfer ymgyrch yn erbyn cŵn yn baeddu wedi dod i law, a byddent yn cael eu gosod ar y ddau hysbysfwrdd.

Y cyfriflenni banc diweddaraf a cheisiadau am dâl.

Datganiad o falans y cyfrif ar 28.10.2021 oedd £6,825.67. Datganiad o falans y cyfrif ar 26.11.2021 oedd £6,594.04. Cadarnhawyd gan Janine Roberts.

Cytunwyd i dalu'r canlynol: Cyflog y Clerc: £177.23; CTHEM: £44.40; Gwasanaeth Cyfieithu Trywydd: £63.07.

Gohebiaeth a ddaeth i law trwy'r post a gohebiaeth a anfonwyd trwy e-bost.

Roedd llythyr o ddiolch am y rhodd wedi dod i law gan C.Ff.I. Llandeilo.

Roedd neges e-bost wedi dod i law yn ymwneud â 'Chydnabod Dydd Gŵyl Dewi'.

Roedd rhifyn mis Tachwedd o gylchgrawn *Clerks & Councils Direct* wedi dod i law.

Ymholiad/Awgrym ar gyfer Cyngor Cymuned Talylychau a ddaeth i law trwy wefan [www.talley.org.uk](http://www.talley.org.uk). Trafodwyd cais bod y Cyngor Cymuned yn creu tudalen Facebook. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd nad oedd angen gwneud hynny ar hyn o bryd, gan fod yna ffynonellau eraill ar gael.

Cynllunio.

Roedd neges e-bost wedi dod i law gan Kevin Donaldson yn ymwneud â diweddaru Ystafell De a Siop Talylychau. Ddiwedd Haf 2020, rhoddodd y swyddog cynllunio wybod y byddai'n ofynnol cael Asesiad o Ganlyniadau Llifogydd (FCA) er mwyn bodloni'r holl ofynion angenrheidiol cyn y gellid gwneud penderfyniad ynglŷn â'r cais. Cymerodd tan fis Chwefror 2021 i gwblhau'r adroddiad hwn, ac argymhellwyd wedyn bod cynllun modelu llawn yn cael ei wneud ar sail canlyniadau'r arolwg. Cwblhawyd hwn ym mis Mai 2021. Yna, diwygiwyd y cynlluniau am y pedwerydd tro a'u cyflwyno i'r swyddogion cynllunio, a ymatebodd gan ddweud bod popeth yn edrych yn ffafriol i argymhell bod y cynlluniau'n cael eu cymeradwyo. Fodd bynnag, gorfododd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) na ddylid caniatáu unrhyw gais yn yr ardal hon oherwydd lefel y llygredd ffosffad mewn rhai dyfrffyrdd a oedd yn effeithio ar weithfeydd gwaredu carthion a'u gallu i niwtralu'r dŵr, a byddai unrhyw ddatblygiad newydd yn ychwanegu at orlwytho llygryddion yn y gweithfeydd gwaredu carthion. Roedd CNC wedi meddwl am syniad, ac wedi'i drafod â'r Swyddog Cynllunio, sef gosod adeiladwaith pren dros dro, a fyddai hefyd yn gorfod cael caniatâd cynllunio, hyd nes y byddai modd rhoi caniatâd cynllunio llawn ar gyfer y cais. Gan fod Mr Noakes, a oedd yn delio â'r mater hwn, wedi ymddeol, cytunwyd y byddai neges e-bost yn cael ei hanfon at Kevin Phillips, Cyngor Sir Caerfyrddin, i fynegi cefnogaeth lawn y Cyngor Cymuned i'r cais cynllunio hwn i ddatblygu'r Siop, Swyddfa'r Post a'r Ystafell De. Roedd hwn yn amwynder yr oedd ei angen yn ddirfawr yn y pentref. Cytunwyd hefyd y byddai Marged Bowen yn siarad ag Adam Price A.S. am y mater hwn.

Cais: Pl/03014. Cynigir trawsnewid rhan o adeilad amaethyddol yn llety twristiaeth preswyl, ynghyd â gwaith cysylltiedig arall – Cilwr Uchaf, Talylychau, Llandeilo, SA19 7BQ. Dim gwrthwynebiadau. Nid oedd unrhyw fusnes arall a daeth y cyfarfod i ben tua 9.15 p.m. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth 4 Ionawr 2022, am 7.30 p.m. Byddai'r Clerc yn holi Mrs Davies, Pennaeth Ysgol Talylychau, i weld a fyddai'r ysgol ar gael.